**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 20/02/2020**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones holl yn bresennol, i'r Cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones; Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Alun Price-Jones, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans & Eleri Thomas (Clerc).

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. John Joes, y Cyngh. Gareth Owen (Dirprwy-Gadeirydd); y Cyngh. Doug Rowbotham a'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
- Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am y trasiedi'n ymwneud â'r tân carafan ar y 19eg o Ionawr 2020. Ni fu digwyddiadau pellach yn ystod mis Ionawr.
- Roedd beiciau Squad Tymhorol yn nodwedd o Ffair Rhos yn ystod mis Chwefror; dioddefodd un person ymddygiad bygythiol.
- Digwyddodd byrgleriaeth yn y Llew Du; roedd tenantiaid eisoes wedi gadael yr adeilad.
- Cododd anghytundeb yn Nhafarn y Teifi, Ffair Rhos ar y 4ydd Chwefror 2020.
- Cadwyd gatiau ar agor yn ardaloedd mynyddig Ffair Rhos.
- Parhaodd potsio ysgyfarnog ar yr ardaloedd uchel.
- Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Evans y dylai pobl fod yn wyliadwrus o unigolion yn honni eu bod yn ceisio "sgrap". Cyfeiriodd at ddigwyddiad yn Llangeitho yn ddiweddar, lle dygwyd eitemau o fferm, ar ôl derbyn mynediad.
- **Arolwg Plismona Cymdogaeth: Heddlu Dyfed Powys:** cwblhawyd yr Arolwg. Roedd y Cynghorydd John Jones hefyd wedi ymateb i'r Arolwg; nid oedd yn hysbys petai'r Cyngh. Jones wedi gwneud hyn yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd neu ar liwt ei hun.
-

**5. DATGANIAD DIDDORDEB:** Dim wedi'i ddatgan.

**6. CADARNHAU CYFARFOD O'R 16eg O IONAWR 2020**
**CYNIGIWYD (y Gyngh. Clare Hughes), EILIWYD (Y Gyngh. Laura Jones) a PHENDERFYNWYD yn unfrydol bod cofnodion Cyfarfod yr 16eg Ionawr 2020, yn gywir a llofnodwyd fel cofnod cywir gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Angharad Jones arwahan i'r canlynol:**

**6.1 Cofnod 11.2: 3 Twll yn amlwg ar y briffordd ger Neuadd Pantyfedwen**: Dylai ddarllen bod y tyllau'n amlwg ar y gyffordd sy'n arwain at Ffair Rhos. i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**6.2** **11.4 Ffair Rhos:** angen sylw ar y daliwr blodau a thrwsio mainc: i hysbysu'r Cyngh. John Jones. **Roedd y daliwr blodau wedi'i atgyweirio ac heb fod angen sylw.**

**6.3** **Dymunodd y Gyngh. Mair Jones** nodi ei bod yn cynrychioli Capel Carmel ar Ymddiriedolaeth Mynwent Eglwys Ystrad Fflur. Nid yw "Ymddiriedolaeth Pantyfedwen" (Cofnod Cyf. 7.4) yn bodoli.

## 7. MATERION YN CODI

**7.1** **Glan-yr-Afon:** parthed tanc olew, nododd ymateb gan G.S. Ceredigion nad oedd y tir a leolwyd y tanc arno, ar dir comin cofrestredig ac ni ellid canfod tystiolaeth o lwybr cerdded yn rhedeg trwy'r ardal. Nid oedd yn ymddangos bod gan y Cyngor Sir gyfrifoldeb, mewn perthynas â'r tir. Cyfrifoldeb perchennog /rheolwr y tir yw trefnu gwaredu â'r tanc olew a thrafod materion tresmasu os dymunir. Bydd y Gyngh. Clare Hughes yn gofyn i Mr Tom Gilbert os yw'r tanc wedi'i dynnu o'r ardal. *Dim Datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn.*

**7.2** **Coed sy'n tyfu yn agos i brif bont, Glan-yr-Afon**: mater mewn llaw gyda'r Cynghorydd Doug Rowbotham. Dim Datblygiadau yn ystod y cyfarfod hwn.

**7.3** **Aelodaeth Pwyllgorau'r Pentref:** Llywodraethwyr Ysgol: Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Angharad Jones: dim adroddiad.
**Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen:** Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Laura Jones: dim adroddiad.
**Ymddiriedolaeth Mynwent yr Eglwys**: Cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Angharad Jones; Y Cynghorydd Gareth Owen: dim adroddiad.
**Ymddiriedolaeth Mynwent Eglwys Ystrad Fflur:** dim adroddiad.
**Cyfarfodydd Chwarterol Un Llais Cymru:** 5.02.2020: Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned: y Cynghorydd Laura Jones wedi methu mynychu'r cyfarfod a ni fu'n bosibl i ddod o hyd i gynrychiolydd arall:dim adroddiad. Derbynnir cofnodion cyfarfodydd ardal Un Llais Cymru'n electronig.

**7.4** **Cinio Blynyddol: Nos Sadwrn 15fed Chwefror 2020, Teifi Inn, Ffair Rhos.** Adroddwyd bod holl yn bresennol wedi mwynhau'r noson gan gynnwys y cinio.

**7.5** **DIWRNOD BUDDUGOLIAETH EWROP: 8FED O FAI 2020: CYFLE UNIGRYW i DALU TEYRNGED i GYFRANIAD MERCHED YN YSTOD DYDDIAU TYWYLL YR AIL RYFEL BYD**: Y mae Cyngor Cymuned wedi cofrestru diddordeb. i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7.6** **Caniatad i blannu Coeden Nadolig ar dir Pantyfedwen:** angen deialog pellach.

**7.7** **Torri Gwair o gwmpas dros fisoedd yr haf**: i osod hysbyseb o gwmpas y pentref. Dyddiad Cau Dydd Iau 19eg Mawrth 2020 Canol Dydd.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Ben Lake AS: yn dymuno Blwyddyn newydd dda i aelodau ac yn eu** diolch am eu gwaith o fewn y plwyf. Posteri'n amgaeedig i'w harddangos yn y gymuned parthed manylion cyswllt megis ben.lake.mp@parliament.uk neu

01570 940333 os oes angen cymorth mewn perthynas â materion lleol. **CYTUNWYD** i arddangos y poster ar yr hysbysfwrdd ac ar y safle ar y we.

**8.2** **Pentir Pumlumon:** drafft terfynol o'r Daflen Ardal Newydd, yn cael ei lawnsio mewn Digwyddiad Lansio ym Mwlch Nantyrarian Canolfan Ymwelwyr ar nos Iau 27ain Chwefror 2020 rhwng 5.30pm a 8pm; Cawl a Bara Brith ar gynnig; cyfle i gymdeithasu a dysgu rhagor am brosiectiau amredig Nantyrarian. Yn rhad ac am ddim.

**8.3** **Arolwg Seilwaith Gwyrdd Ceredigion**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wrthi'n paratoi Asesiad Seilwaith Gwyrdd i arwain a siapio cynllunio a darpariaeth Seilwaith Gwyrdd (SG) yng Ngheredigion. SG yw'r rhwydwaith o fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig sy'n cynnwys mannau agored mwy confensiynol megis caeau a chaeau chwarae, ond hefyd nodweddion fel coed trefol, llwybrau cyhoeddus ac afonydd.

Os oes gan unrhywun ddiddordeb yn y testun yma byddai'r Cyngor Sir yn falch o dderbyn mewnbwn trwy gwblhau yr arolwg ar-lein cyn ddiwedd mis Chwefror. Ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/GreenInfrastructure

**8.4** **GIG Cymru:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Gwasanaeth Tu Allan i Oriau. Mae gwasanaeth Tu Allan i Oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi'i nodi fel prosiect blaenoriaeth ar gyfer 2019-20 gan ei fod yn rhan hanfodol o'r system gofal sylfaenol a gofal heb ei drefnu brys. Am beth amser, mae'r gwasanaeth wedi dod yn fwyfwy bregus oherwydd anawsterau wrth lenwi rotas Meddygon Teulu, â'r sefyllfa'n arbennig o heriol ar benwythnosau. Mae hyn wedi arwain at orfod symud y clinigwyr hynny sydd ar gael ar gwmpas er mwyn ceisio rheoli'r diffygion yn ôl yr angen, neu yn gynyddol felly cau canolfannau am gyfnodau hir o amser os na ellir llenwi'r rotas, a hynny er budd diogelwch cleifion.
Mae Swyddfa Rheoli Prosiect Trawsnewid y bwrdd iechyd wedi dechrau ar y broses o fapio cyfleoedd i ailfodelu'r gwasanaeth Tu Allan i Oriau ac mae gweithdy aml-randdeiliaid wedi profi'n llwyddiannus iawn wrth ddatblygu gweledigaeth a dyheadau ar gyfer y gwasanaethau, tra hefyd yn tynnu sylw at yr angen di-oed am wytnwch yn y gwasanaeth er mwyn cynnal diogelwch y claf a rheoli risg glinigol.
Ar y sail hon, mae Tîm Gweithredol y bwrdd iechyd wedi cymeradwyo cynnig i gyflwyno newid gwasanaeth dros dro o 9 Mawrth 2020. Bydd hyn yn cynnwys ad-drefnu'r sift Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau dros nos (11pm-8am) yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli ac ailgyfeirio cleifion at y Meddyg Teulu 24/7 yn Uned Mân Anafiadau'r ysbyty os oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb arnynt. Am mai nifer fechan iawn o gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae'r bwrdd iechyd hefyd yn symud y sifft Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau presennol o Landysul i Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin, yn ystod y cyfnod dros nos. Trwy wneud hyn, y maent yn gobeithio llenwi mwy o'r sifftiau clinigol ar benwythnosau pan mae mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth a darparu gwasanaeth mwy cyson a chadarn ar gyfer cleifion, a pharhau i'w hadolygu yn y modd mwyaf priodol. Nid oes unrhyw newid i'r

Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip os oes angen ofal brys na all aros am apwyntiad yn ystod oriau arferol Meddyg Teulu, gellir parhau i'w defnyddio fel arfer.
i gefnogi'r newid hwn, mae cynllun peilot Uwch Ymarferydd Parafeddygol wedi'i ymestyn. Golyga hyn y gall yr ymarferwyr hyn gynnal ymweliadau cartref ar draws y bwrdd iechyd. Bydd y newidiadau dros dro hyn hefyd yn helpu i lywio trawsnewidiadau tymor hwy o'r gwasanaeth Tu Allan i Oriau yn unol â'r strategaeth Canolbarth a Gorllewin Iachach a gofynnir i gleifion am adborth o'u profiad o'r newid dros dro i helpu llywio penderfyniadau .

8.5 **Gohebiaeth eraill**: er gwybodaeth yn unig.

**9. CYLLID**

9.1 **Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Cyngor Cymuned ar ddydd Llun 20fed Ionawr 2020** i drafod sut y gallai'r Cyngor Cymuned helpu rhieni Shaun ac Erin Harvey o ganlyniad i drasiedi carafan yn Ffair Rhos ar y 19.01.2020 pan gollodd Zac Harvey 3 mlwydd oed ei fywyd a gadael ei frawd Harley mewn cyflwr critigol. Roedd y digwyddiad wedi tristhau aelodau'n enfawr.
Trafodwyd cefnogaeth ariannol yn ystod cyfarfod 20.01.2020.
Cytunwyd, yn y cyfarfod o'r 20.02.2020, i geisio cyngor y Cyngh. Ifan Lloyd-Davies (a oedd yn absennol).

9.2 **Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020:** Caeau Tancastell; Rhydyfelin, Aberystwyth; 11-13 Medi 2020; yn ceisio cymorth ariannol: *Derbyniwyd.*

9.3 **Cyflog y Clerc:** Ionawr 2020: £193.83 (Cyflog Gross).

9.4 **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir. *Yn disgwyl taliad.*

9.5 **Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfod y dyfodol.

9.6 **Eglwys Ystrad Fflur:** yn gofyn am lythyr o gefnogaeth parthed cais yr Eglwys am Grant Cymunedol y Cyngor Sir ar gyfer gwelliannau'n ymwneud â'r oriel a'r gangell. Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth.

**10. CYNLLUNIO**

10.1 **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

11.1 **Cytunwyd i atgoffa Cyngor Sir Ceredigion** o'r cais am bont droed yn y Pentref.

11.2 **Mae angen atgyweirio'r fainc yn Ffair Rhos.** Y Cynghorydd Clare Hughes i geisio dyfynbrisiau.

11.3 **Adroddwyd bod 2 garafan wedi'u lleoli'n agos at yr ysgol.** Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y lleoliad ar hyn o bryd.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.25 pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 19eg Mawrth 2020 am 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)